Defnyddio cerdyn sgorio Elfen Cymru Gyfan Glastir

Cyflwyniad

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi datblygu'r cerdyn sgorio fel teclyn hwylus i'ch helpu i ystyried pa opsiynau y gallwch eu cynnal ar eich fferm ar gyfer y cynllun Glastir. Bydd yn dangos ichi effeithiau'r opsiynau gwahanol (ac effaith amrywio maint pob opsiwn ar eich sgôr cyfan. Wrth wneud, gallwch ddewis y cyfuniad o opsiynau a'r gwaith sydd fwyaf addas i chi ac i'ch fferm.

Sut i ddefnyddio'r cerdyn sgorio

Mae'r cerdyn sgorio yn hawdd ei ddefnyddio. Ond cyn dechrau, bydd angen gwybod y canlynol arnoch chi:

- Arwynebedd eich fferm gyfan
- Faint o hectarau sy'n gymwys i fod o dan Glastir
- Os ydych yn hawlio Tir Mynydd, neu os yw'ch fferm neu ran ohoni yn yr Ardal Lai Ffafriol (ALFf), bydd angen ichi wybod faint o hectarau o'ch fferm sydd yn yr ALFf.

Rhowch y ffigurau hyn yn y blychau yng nghornel chwith uchaf y cerdyn sgorio. Sylwch sut mae'r cerdyn sgorio yn cyfri'ch trothwy ichi'n awtomatig. Un peth arall – ar gornel dde uchaf y cerdyn sgorio, mae yna gwestiwn am statws organig eich fferm. Os oes gennych dystysgrif organig ar gyfer y tir sy'n dod o dan Glastir, rhowch 'y' yn y blwch. Fel arall, rhowch 'n'.

Fe fyddwch wedi sylwi hefyd bod darnau ychwanegol o wybodaeth yn ymddangos wrth ichi lusgo'ch 'curser' dros y blychau ar y cerdyn sgorio. Mae'r wybodaeth yno i'ch helpu. Os oes triongl bach coch ar gornel dde uchaf yn y blwch, mae yna wybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i'r blwch hwnnw.

Mae'r cerdyn sgorio yn rhestru'r holl opsiynau sydd ar gael yn elfen Cymru Gyfan Glastir. Wrth bob opsiwn, dangosir faint o bwyntiau fesul uned gewch chi am gynnal yr opsiwn. Er enghraifft, mae opsiwn 1 'Creu coridor i wella cysylltiadau' yn cynnig 1.7 o bwyntiau'r metr. Fe welwch fod y cerdyn sgorio wedi cyfrif y terfyn gewch chi ar gyfer pob opsiwn ar eich fferm. Dyma'r mwyaf gewch chi ei dalu amdano o dan yr opsiwn dan sylw trwy'ch contract Glastir.

Nodwch faint o bob opsiwn rydych chi'n credu y gallwch ei wneud ar eich fferm yn y golofn 'arwynebedd/nifer'. Wrth ichi wneud, os bydd y ffigur yn fwy na'r terfyn a ganiateir ar gyfer yr opsiwn, bydd y blwch perthnasol yn y golofn bwyntiau yn troi'n goch. Os gwnaiff hyn ddigwydd, lleihewch y ffigur nes bod y blwch pwyntiau'n troi'n wyrdd. Cariwch ymlaen i ddewis opsiynau a nodi niferoedd tan y bydd eich blwch sgôr terfynol yng nghornel chwith isaf y cerdyn sgorio yn troi'n wyrdd. Bydd hynny'n arwydd eich bod wedi dewis digon o opsiynau ac wedi cyrraedd eich trothwy.

Mae croeso ichi newid eich meddwl a rhoi cyfuniadau gwahanol o opsiynau a niferoedd nes eich bod yn cael hyd i'r cyfuniad rydych yn teimlo fydd orau i chi ac i'ch fferm.

Rydym yn eich cynghori i nodi ychydig yn fwy nag sydd ei angen i groesi'ch trothwy. Hynny oherwydd, wrth inni gyfri'r pwyntiau ar gyfer pob un o'ch opsiynau, mae'n bosibl y gwelwn fân-gamgymeriadau a allai olygu methu'r trothwy. Mae casglu ychydig o bwyntiau 'dros ben' felly yn syniad da ar hyn o bryd. Yn ystod y cyfweliad personol yn nes ymlaen yn y broses, byddwn yn gostwng y niferoedd fel eich bod yn taro'r trothwy yn union.

Ar ôl ichi orffen, gallwch arbed y cerdyn sgorio i'w brintio nes ymlaen neu gallwch ei brintio nawr. Beth bynnag a wnewch, gofalwch eich bod yn dod â'r cerdyn gyda chi i'r Swyddfa Ranbarthol ar gyfer eich cyfweliad (byddwn yn anfon y manylion atoch maes o law).